Y ffurflen ôl troed carbon albert

Mae cyfrifiannell carbon albert yn adnodd ar-lein am ddim sy'n safon o fewn y diwydiant o ran asesu effaith amgylcheddol cynyrchiadau teledu.

Mae'n ofynnol i gwmnïau cynhyrchu lenwi a chyflwyno ffurflen asesu ôl troed carbon gan ddefnyddio'r gyfrifiannell ar gyfer y rhan fwyaf o raglenni a gomisiynir gan S4C (gweler yr eithriadau isod). Rhaid cyflwyno'r ffurflen hon i dîm materion busnes S4C o fewn pythefnos i raglen gael ei darlledu ac mae'n rhan o'r hyn sydd angen i gynhyrchiad ei gyflwyno'n derfynol.

Sylwer, nid yw'n ofynnol ar hyn o bryd i gyfres sy'n llai na 15 munud o hyd a/neu sydd â chyfanswm y gyllideb yn llai na £50,000 gyflwyno ffurflen ôl troed albert.

I gwblhau asesiadau gan ddefnyddio'r gyfrifiannell, mae angen mewnbynnu data megis defnydd cynhyrchiad o eneraduron, teithiau hedfan a diwrnodau ôl-gynhyrchu. Cynghorir cynhyrchwyr i ymgyfarwyddo â'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr asesiad yn gynnar yn y broses gynhyrchu er mwyn cyflymu'r broses o gwblhau'r asesiadau.

Gellir dod o hyd i'r gyfrifiannell yn https://calc.wearealbert.org.